# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Rhagfyr 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o ymwelwyr mae Gerddi Botaneg Cymru wedi eu denu ers eu hagor, a beth yw incwm gwariant o ganlyniad i'r ymweliadau hyn. (WAQ30775) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Faint o swyddi amser llawn a amcangyfrifir sydd wedi cael eu creu o ganlyniad i'r rhaglen Amcan Un ym mhob un o'r siroedd canlynol - Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. (WAQ30787)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o greu ffyrdd osgoi ar gyfer Llanfair-ym-Muallt a Rhaeadr Gwy. (WAQ30788)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ30789)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Sut y mae cau'r Ardd Genedlaethol yn Llanarthne yn effeithio ar strategaeth economaidd y Llywodraeth Lafur yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. (WAQ30790)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa bresennol canolfan fio-technium Gardd Fotaneg Cymru ac ar ddyfodol y ganolfan. (WAQ30791)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu Canolfannau Technium yn Sir Gaerfyrddin. (WAQ30792)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi faint o ganolfannau Technium a ragwelwyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a faint o ganolfannau sy'n debygol o gael eu creu. (WAQ30793)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o gyfalaf fydd yn cael ei

golli i economi Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i gau'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne. (WAQ30778). **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau cau Gerddi Botaneg Cymru i economi Sir Gaerfyrddin a Gorllewin Cymru. (WAQ30776) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r WDA a'r Awdurdod Lleol ynglyn â sicrhau gwaith i gynweithwyr Gerddi Botaneg Llanarthne. (WAQ30777) **W**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Yn dilyn ailwerthuso'r Ewro, faint mwy o arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, o ffynonellau: (i) cyhoeddus, a (ii) preifat. (WAQ30769) **W**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut fydd penderfyniad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol i greu system asesu newydd i benderfynu pa athrawon fydd yn symud o lefel 2 i lefel 3 yn effeithio ar athrawon Cymru a pha arian fydd ar gael i ysgolion er mwyn ariannu hyn. (WAQ30794)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. (WAQ30786)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A oedd llithriad yn y gyllideb ar gyfer cronfa'r Aggregate Levy Fund yn 2002/03, os felly, a gariwyd ef drosodd i'r flwyddyn ariannol ganlynol, a faint ohono sydd dal ar gael. (WAQ30765) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Faint o arian o'r Aggregate Levy Fund sydd wedi cael ei ddynodi i gynlluniau yn 2002/03 ac hyd yn hyn yn 2003/04. (WAQ30766) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb sydd wedi'i ddyrannu i'r Gronfa Ardoll Agregau. (WAQ30767)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa archwiliadau sy'n cael eu gwneud er mwyn canfod labeli twyllodrus ar gynnyrch cig sy'n cael ei fewnforio i Gymru. (WAQ30813)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau*

## *Cyhoeddus*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Faint o weithwyr amser llawn neu’u cyfatebol sy’n cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Gwynedd, Sir Conwy a Sir Ddinbych. (WAQ30795)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Yn gysylltiedig â WAQ30602, ar ba ddyddiad y derbyniodd y Gweinidog lythyr oddi wrth Gyngor Sir Caerdydd ynghylch canlyniadau Cyfrifiad 2001. (WAQ30811)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant ar raglenni cyfalaf yn GIG Cymru bob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ30770)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwaith cynnal a chadw ar adeiladau'r GIG oedd heb ei wneud bob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ30771)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian ychwanegol y mae pob Ymddiriedolaeth yn y De Ddwyrain yn amcangyfrif sydd ei hangen arni i helpu i leihau'r rhestrau a'r amserau aros i gleifion orthopedig. (WAQ30772)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian ychwanegol sydd wedi'i neilltuo i bob Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Lleol i'w helpu i leihau'r rhestrau a'r amserau aros i gleifion orthopedig. (WAQ30773)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru faint mae GIG Cymru wedi'i wario yn y sector preifat ar lawdriniaethau orthopedig, hynny fesul blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ30774)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o lawdriniaethau sydd wedi'u canslo eleni oherwydd prinder gwelyau gofal dwys a beth oedd y ffigur dros y pedair blynedd ddiwethaf. (WAQ30779)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o welyau gofal dwys sydd yn Ysbyty Llandochau eleni o'i gymharu â 1999. (WAQ30780)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth yw cyfanswm y gost o ddarparu gwely gofal dwys a faint sydd wedi'i neilltuo yn y gyllideb i'r diben hwn. (WAQ30781)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o Welyau Gofal Dwys sydd yna yng Nghymru a sut mae hyn yn cymharu â ffigur 1999. (WAQ30782)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd goblygiadau'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar

Oriau Gwaith i GIG Cymru. (WAQ30783)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddelio â'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Oriau Gwaith a'i heffaith ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. (WAQ30784)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i dreialu unrhyw newidiadau i batrymau gwaith yn y GIG cyn y daw'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Oriau Gwaith i rym. (WAQ30785)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Beth mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch cryfhau pwerau'r Comisiynydd Plant yng Nghymru. (WAQ30798)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes gan y Gweinidog gynlluniau ar droed i wella'r gwasanaethau i blant sydd ag anawsterau dysgu. (WAQ30800)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau ar droed i wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu gwelyau yng Nghymru ar gyfer cleifion sydd ag anhwylderau bwyta. (WAQ30801)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes unrhyw gynlluniau gan y Gweinidog i sefydlu gwasanaeth fforensig ar gyfer y glasoed yng Nghymru. (WAQ30802)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddarparu gwelyau brys ar gyfer y glasoed yng Nghymru. (WAQ30803)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddarparu mwy o welyau yng Nghymru ar gyfer plant sy'n gleifion mewnol. (WAQ30804)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i glustnodi ac i neilltuo arian er mwyn gweithredu'r strategaeth Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau i blant a gwasanaethau iechyd meddwl. (WAQ30805)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sefydlu trefn o atgyfeirio uniongyrchol at therapyddion megis ffisiotherapyddion a deietegwyr. (WAQ30806)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa feysydd arbenigol y bydd y Gweinidog yn rhoi blaenoriaeth iddynt wrth ddarparu ar gyfer therapyddion ymgynghorol. (WAQ30807)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu rhoi mwy o gymorth ariannol i'r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn lleihau'r dyledion a etifeddwyd

ganddynt ac er mwyn sicrhau bod modd ariannu'n llawn y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu oddi wrth yr amryfal sefydliadau gwirfoddol. (WAQ30814)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd cwtogi ar y gwasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi dioddef strôc yn cael effaith andwyol ar wariant ar iechyd yn y tymor hir. (WAQ30815)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Faint o therapyddion ymgynghorol sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd. (WAQ30816)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu ar gyfer cyflogi mwy o therapyddion ymgynghorol yng Nghymru. (WAQ30817)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa adnoddau a fydd y Gweinidog yn eu darparu er mwyn cyflogi mwy o therapyddion ymgynghorol yng Nghymru. (WAQ30818)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Yn ôl amcangyfrifon y Gweinidog, faint o amser y bydd yn ei gymryd iddi gael gwared ar y diffyg ar y rhaglen gyfalaf yn ei phortoffolio. (WAQ30808)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa adnoddau ychwanegol y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu rhoi i GIG Cymru er mwyn bodloni'r ymrwymiad sy'n deillio o adroddiad Wanless i ganiatáu i'r rheini sy'n aros mwy na 18 mis am rai mathau o driniaeth fel cleifion mewnol ddefnyddio ysbyty arall. (WAQ30809)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** O'i gymharu â gwariant cyfalaf ar y GIG yn Lloegr, faint o arian cyfalaf, i'w gymharu â'r hyn yr oedd ei angen, y mae'r Cynulliad wedi'i wario ar y GIG yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ30810)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o welyau gofal dwys sydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru eleni o'u cymharu ag ym 1999. (WAQ30812)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Ar ba linell neu linellau yn y gyllideb yr ymddengys arian 'Cymunedau yn Gyntaf'. (WAQ30768) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gysylltiadau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. (WAQ30799)